Ministry of Justice

# Cynllun Cyflawni Strategaeth Carcharorion Benywaidd 2022–25

Ionawr 2023

CP 772

Ministry of Justice

# Cynllun Cyflawni Strategaeth Carcharorion Benywaidd 2022–25

Cyflwynwyd i'r Senedd gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Ionawr 2023

CP 772

OGL

**© Hawlfraint y Goron 2023**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd yn wahanol. Er mwyn gweld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi bod yr hawlfraint ar unrhyw wybodaeth yn eiddo i drydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd i'w defnyddio gan y deiliaid hawlfraint sy'n gysylltiedig.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn Female Offender Policy, Floor 7,102 Petty France, Llundain, SW1H 9AJ neu cjwst@justice.gov.uk.

ISBN 978-1-5286-3649-0

E02776126 01/23

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

# Cynnwys

Rhagair y Gweinidog 3
Crynodeb gweithredol 5
Cyflwyniad 8
Ein hymrwymiadau 9
1. Llai o fenywod yn mynd i'r system gyfiawnder troseddol ac yn aildroseddu 10
2. Llai o fenywod yn cael dedfrydau byr o garchar gyda chyfran uwch yn cael eu rheoli'n llwyddiannus yn y gymuned 15
3. Canlyniadau gwell i fenywod mewn carchar 20
4. Amddiffyn y cyhoedd drwy well canlyniadau i fenywod ar adeg eu rhyddhau 26
Sut y byddwn yn mesur cynnydd 31
Cwmpas 34
Y Cyd-destun Cymreig 35

# Rhagair y Gweinidog

Pan fydd menywod sydd wedi profi trais, problemau iechyd meddwl a chaethiwed i sylweddau yn cael eu gadael heb help, cymdeithas sy’n talu’r pris.

Gall teuluoedd gael eu chwalu.

Gall cymunedau wynebu mwy o droseddu.

A threthdalwyr fydd yn gorfod talu cost y gwasanaethau a ddefnyddir ganddynt – gan gynnwys yr heddlu, y llysoedd ac yn y diwedd, carchardai a phrawf.

Pan ddigwydd yr holl bethau hyn, bydd y cylch niweidiol o droseddu benywaidd yn parhau.

Dros bedair blynedd ar ôl cyhoeddi’r Strategaeth Carcharorion Benywaidd, mae’r Llywodraeth wedi ymrwymo o hyd i’w thri nod – ymyrraeth gynharach a dedfrydau cymunedol gwell, lleihau nifer y menywod sy’n mynd i garchar, a gwneud carcharu’n fwy effeithiol. Ac rydym wedi gwneud cynnydd pendant tuag at eu cyflawni.

Gan gydnabod y rôl holl bwysig sydd gan sefydliadau cymunedol menywod mewn helpu unigolion agored i niwed, rydym wedi lansio cystadlaethau grant i fuddsoddi hyd at £24 miliwn yn ystod y tair blynedd nesaf ar gyfer menywod sydd, neu sydd mewn perygl o fod, mewn cysylltiad â’r system gyfiawnder troseddol.

Yn wir, rydym eisoes wedi buddsoddi oddeutu £9.5 miliwn yn y sector hwn ers Mehefin 2018, yn ychwanegol at y bron i £46 miliwn a ddyfarnwyd i sefydliadau i ddarparu cymorth wedi’i deilwra i fenywod rhwng 2021 a 2025.

Mae poblogaeth carchardai menywod yn lleihau – roedd 4,123 o fenywod mewn carchar ym Mehefin 2012 o’i gymharu â 3,253 ym Mehefin 2022 – gostyngiad o 21%. Ond rydym hefyd am weld llai o fenywod sy’n cael dedfrydau byrion. Dyna pam yr ydym yn treialu Llysoedd Datrys Problemau, gan gynnwys un sy’n canolbwyntio’n gyfan gwbl ar fenywod ac sy’n dyfarnu dedfrydau cymunedol cadarn i roi sylw i achosion sylfaenol troseddu.

I'r menywod hynny sy’n cyflawni troseddau difrifol – ac a ddylai gael dedfryd o garchar – byddwn yn gwella’r cymorth a ddarperir iddynt, gan gynnwys lleihau’r achosion o hunan-niweidio drwy wasanaethau therapiwtig a threialu gweithwyr cymdeithasol mewn carchardai i helpu mamau.

Byddwn hefyd yn diweddaru ein strategaeth gyda phedwerydd nod – ailsefydlu’n effeithiol y menywod hynny sy’n gadael carchar yn ôl i gymunedau, i leihau’r perygl o aildroseddu.

Mae hynny'n golygu y byddwn yn canolbwyntio ar yr ymyriadau y gwyddom sy'n gweithio – cartref, mynediad at driniaeth at gamddefnyddio sylweddau, a swydd.

Fel rhan o hyn, rydym yn cyflwyno Canolfannau Cyflogaeth, Byrddau Cynghori ac Arweinyddion Cyflogaeth mewn 10 carchar menywod i roi troseddwyr mewn cysylltiad â chyfleoedd gwaith ar y tu allan.

Mae'r Llywodraeth eisiau atal menywod rhag cael eu dal yn y system gyfiawnder troseddol a gwneud yn siŵr bod y rhai sy'n dod i gysylltiad â'r system yn cael trefn ar eu bywydau unwaith eto.

Bydd pawb yn elwa ar y ddau nod yn y pen draw – troseddwyr, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach lle bydd llai o ddioddefwyr a strydoedd mwy diogel.

# Crynodeb gweithredol

Mae menywod sy'n dod i gysylltiad â'r system gyfiawnder troseddol ymhlith y rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Mae llawer yn profi trawma, cam-drin domestig, problemau iechyd meddwl neu bydd ganddynt hanes o gamddefnyddio alcohol a chyffuriau. Gall y ffactorau sy'n gwneud i ddynion a menywod droseddu, ac aildroseddu, amrywio'n fawr. Dull sy'n ystyried anghenion a chefndiroedd gwahanol y menywod sydd fwyaf effeithiol i roi sylw i'w hymddygiad troseddol.

Mae'r Cynllun Cyflawni hwn yn disgrifio sut y bydd y Llywodraeth yn cyflawni pedair blaenoriaeth i leihau troseddu ymhlith menywod yng nghyfnod Adolygiad o Wariant 2022–25. Mae camau i gyflawni llawer o'r ymrwymiadau hyn eisoes ar waith.

**1. Llai o fenywod yn dod i gysylltiad â'r system gyfiawnder troseddol ac yn aildroseddu**

Mewn rhai achosion, byddai modd atal menywod rhag troseddu drwy ymyriadau cynharach, gan gynnwys dargyfeirio o'r system gyfiawnder troseddol ac at gymorth.

Ein nod fydd:

- Dod â phartneriaid statudol a gwirfoddol ynghyd i roi sylw i anghenion y grŵp hwn o fenywod, eu dargyfeirio oddi wrth ymddygiad troseddol a lleihau'r galw am wasanaethau. Fel rhan o hyn rydym wedi lansio cystadleuaeth am hyd at £21m o gyllid grant aml-flwyddyn i hybu gwasanaethau cymunedol hanfodol i fenywod, a hyd at £3.6m i annog gweithio mewn partneriaeth yn lleol.
- Gweithio â'r Swyddfa Gartref, y Coleg Plismona, Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC), a Chymdeithas y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (APCC), i sicrhau bod heddluoedd yn deall ac yn ymateb yn effeithiol i anghenion menywod agored i niwed, gan gynnwys pecyn cymorth tactegol, erbyn mis Mawrth 2023.
- Gweithio â'r heddlu a phartneriaid Cyswllt a Dargyfeirio (L&D) i ganfod menywod yn well a'u dargyfeirio o'r system gyfiawnder troseddol ac at gymorth, pan yn briodol, gan gynnwys cynnal adolygiad o'r gwasanaeth Cyswllt a Dargyfeirio i fenywod.
- Gweithio ag erlynwyr heblaw'r heddlu i edrych ar opsiynau i roi sylw i'r nifer uchel o fenywod sy'n cael eu herlyn am droseddau fel efadu ffi'r drwydded deledu.

**2. Llai o fenywod yn cael dedfryd fer o garchar gyda chyfran uwch yn cael eu rheoli'n llwyddiannus yn y gymuned**

Rydym am weld mwy o fenywod yn cael eu rheoli'n effeithiol yn y gymuned, pan fydd y drosedd a gyflawnwyd yn caniatáu hynny, gyda menywod yn aros yn nes at eu teuluoedd a rhwydweithiau cymorth ac yn ymgysylltu â chymorth adsefydlu i atal aildroseddu.

Ein nod fydd:

- Gweithio â llysoedd i godi ymwybyddiaeth ac i gynyddu dealltwriaeth o'r materion penodol y mae menywod sy'n troseddu yn eu hwynebu.
- Chwilio am opsiynau heblaw cadw yn y ddalfa os yw er budd cyfiawnder i wneud hynny, gan gynnwys diweddu remand er eu hamddiffyniad eu hunain ar sail iechyd meddwl yn unig, fel y nodir yn y Bil Diwygio'r Ddeddf Iechyd Meddwl drafft.
- Sicrhau bod gan lysoedd opsiynau dedfrydu cadarn a seiliedig ar dystiolaeth sy'n rhoi cyfleoedd i fenywod i roi sylw i'r ffactorau sylfaenol sy'n gwneud iddynt droseddu ac i gael trefn ar eu bywydau. Fel rhan o hyn byddwn yn treialu Llysoedd Datrys Problemau (PSC), gan gynnwys un safle ym Mirmingham a fydd yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar fenywod.

### 3. Canlyniadau gwell i fenywod mewn carchar

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu cymorth ac amgylcheddau priodol a fydd yn galluogi menywod i roi sylw i achosion sylfaenol eu hymddygiad troseddol fel y byddant yn talu eu dyled i gymdeithas, eu bod yn cael eu hadsefydlu ac na fyddant yn aildroseddu ar ôl cael eu rhyddhau.

Ein nod fydd:

- Gwella diogelwch i bob menyw mewn carchar a lleihau difrifoldeb a nifer yr achosion o hunan-niweidio drwy ehangu gwasanaethau therapiwtig ac ystyried sut y gallwn leihau'r angen i symud menywod rhwng carchardai.
- Gwneud y gweithlu carchardai a phrawf yn fwy proffesiynol drwy hyfforddiant, arweiniad a chyflwyno rolau newydd, gan eu galluogi i ddiwallu anghenion menywod mewn carchardai yn well.
- Darparu gofal iechyd i fenywod mewn carchardai sydd o'r un safon â'r hyn a geir yn y gymuned, gan gytuno ar y camau nesaf i fwrw ymlaen ag argymhellion Adolygiad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Carchardai Menywod a gynhaliwyd ar y cyd gan NHS England a HMPPS.
- Sicrhau bod yr ystâd carchardai menywod yn cynnig llety gweddus sy'n hybu adsefydlu, parhau â gwaith i gael cyfleusterau newydd mewn carchardai menywod, drwy gyfuniad o leoedd Agored a Chaeedig.

### 4. Amddiffyn y cyhoedd drwy ganlyniadau gwell i fenywod ar ôl eu rhyddhau

Byddwn yn gweithio i leihau cyfraddau aildroseddu ymhlith menywod sy'n gadael carchar, gyda phwyslais ar yr hyn y gwyddom sy'n gweithio: cartref, swydd a mynediad at driniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau.

Ein nod fydd:

- Codi lefelau rhifedd, llythrennedd, sgiliau a chymwysterau menywod fel y byddant yn fwy tebygol o gael gwaith neu brentisiaeth ar ôl eu rhyddhau, cyflwyno canolfannau

Cyflogaeth, Byrddau Cynghori Cyflogaeth ac Arweinyddion Cyflogaeth ym mhob carchar menywod i ddarparu cymorth cyflogaeth gwell.

- Helpu menywod i gael llety diogel a saff ar ôl eu rhyddhau fel y gallant barhau i roi sylw i achosion eu troseddu, recriwtio hyd at naw o Arbenigwyr Tai Strategol erbyn diwedd Ionawr 2023.
- Datblygu Pasbort Ailsefydlu sy'n rhoi i fenywod yr wybodaeth a'r gwasanaethau allweddol a fydd eu hangen arnynt i addasu i fyw bywyd heb droseddu gan roi sylw i ffactorau y gwyddys sy'n arwain at aildroseddu.
- Sicrhau bod cymorth ar gael fel y gall rhai sy'n gadael carchar barhau â'r driniaeth iechyd meddwl neu gamddefnyddio sylweddau sydd ei hangen arnynt ar ôl eu rhyddhau, gan gynnwys recriwtio Cydlynwyr Iechyd a Chyfiawnder i bob Rhanbarth Prawf.

## Sut y byddwn yn mesur ac yn adrodd ar gynnydd

Byddwn yn defnyddio mesurau perthnasol i fonitro newidiadau mewn ystod o ganlyniadau ar gyfer pob maes blaenoriaethol. Lle na fydd modd dweud beth sy'n achosi canlyniad, byddwn yn edrych ar yr holl ddata a thystiolaeth sydd gennym i geisio deall canlyniadau.

Bydd data a thystiolaeth newydd yn cael eu cyflenwi pan fyddant ar gael. Byddwn yn rhoi diweddariadau bob chwe mis o leiaf. Bydd data a thystiolaeth a gyhoeddir ar gael drwy dudalen bwrpasol ar GOV.UK.

# Cyflwyniad

Mae'r Cynllun Cyflawni hwn yn dangos sut y bydd y Llywodraeth yn cyflawni pedair blaenoriaeth allweddol i leihau troseddu ymhlith menywod yn ystod y tair blynedd nesaf. Y rhain yw:

- Llai o fenywod yn mynd i'r system gyfiawnder troseddol ac yn aildroseddu
- Llai o fenywod yn cael dedfryd fer o garchar gyda chyfran uwch yn cael eu rheoli'n llwyddiannus yn y gymuned
- Canlyniadau gwell i fenywod mewn carchar
- Amddiffyn y cyhoedd drwy ganlyniadau gwell i fenywod ar ôl eu rhyddhau.

# Ein hymrwymiadau

Mae'r adran ganlynol yn dangos ein hymrwymiadau i bob un o'r pedair blaenoriaeth, gan ddangos nod ein gwaith, yr hyn rydym wedi'i wneud hyd yma a'r hyn y byddwn yn ei wneud dros gyfnod o dair blynedd. Byddwn yn adolygu cynnydd yn rheolaidd gyda'n Grŵp Arbenigol allanol o elusennau ac asiantaethau a'r Bwrdd Menywod yn y System gyfiawnder Troseddol rhyngweinidogol, a sefydlwyd fel rhan o'n trefniadau llywodraethu newydd.

Mae menywod sydd mewn cysylltiad â'r system gyfiawnder troseddol ymhlith y bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Mae llawer yn profi trawma, cam-drin domestig, problemau iechyd meddwl neu mae ganddynt hanes o gamddefnyddio alcohol a chyffuriau. Mae carcharorion ag anableddau wedi'u gorgynrychioli ymhlith y boblogaeth troseddwyr benywaidd, ac er nad yw'r rhan fwyaf o ferched mewn gofal a rhai sy'n gadael gofal yn ymwneud â gweithgarwch troseddol, maent yn dal i fod wedi'u gorgynrychioli yn y system gyfiawnder troseddol. Mae troseddwyr benywaidd hefyd yn fwy tebygol na throseddwyr gwrywaidd o fod yn brif ofalwyr plant dibynnol.

Dengys tystiolaeth fod rhyw yn ffurfio profiadau o garchar a chyfiawnder. Gall ffactorau sy'n arwain dynion a menywod i droseddu, ac i aildroseddu, amrywio'n fawr, ac felly hefyd sut mae dynion a menywod yn ymateb i ymyriadau sydd wedi'u llunio i roi sylw i'w hymddygiad troseddol. Mae tystiolaeth i ddangos mai dull sy'n ystyried gwahanol anghenion a chefndiroedd menywod, gan gynnwys menywod o leiafrifoedd ethnig sydd wedi'u gorgynrychioli yn y system gyfiawnder troseddol, sydd fwyaf effeithiol i roi sylw i'w hymddygiad troseddol.

Byddwn yn cyhoeddi adolygiad o'n cynnydd wrth gyflawni'r ymrwymiadau sydd yn y cynllun cyflawni hwn ymhen blwyddyn.

Yn ogystal â'r Cynllun Cyflawni hwn rydym yn cyhoeddi dau adroddiad cynnydd cysylltiedig ar Review for Women yr Arglwydd Farmer (2019) a'r Concordat Cenedlaethol ar fenywod sydd, neu sydd mewn neu mewn perygl o fod, mewn cysylltiad â'r System gyfiawnder Troseddol (2021). Bydd ymrwymiadau heb eu cyflawni o Adolygiad Farmer a'r Concordat yn cael eu symud ymlaen o dan y Cynllun Cyflawni hwn.

# 1. Llai o fenywod yn mynd i'r system gyfiawnder troseddol ac yn aildroseddu

## Trosolwg

Mae llawer o'r menywod sy'n dod i gysylltiad â'r system gyfiawnder troseddol wedi profi cam-drin domestig, problemau iechyd meddwl neu mae ganddynt hanes o gamddefnyddio alcohol a chyffuriau. Maent yn aml yn cyflawni troseddau di-drais, lefel isel, ac sy'n arwain at ddedfrydau byr o garchar i lawer ohonynt. Maent yn cael eu gorgynrychioli mewn erlyniadau am droseddau penodol, yn enwedig erlyniadau heblaw'r heddlu. Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym Mehefin 2022, roedd menywod yn cyfrif am 75% o'r diffynyddion a erlynwyd am efadu ffi'r drwydded deledu, 69% o'r diffynyddion a erlynwyd am driwantiaeth plentyn, a 58% o'r diffynyddion y dygwyd achos yn eu herbyn am dwyll budd-daliadau, lle'r oedd rhywedd y diffynnydd yn wybyddus, yn 2021.[1] Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym Mehefin 2022, roedd menywod a ddedfrydwyd am ladradau, troseddau diannod heblaw moduro a throseddau amrywiol yn erbyn cymdeithas hefyd yn cyfrif am dros hanner (58%) yr holl fenywod a gafodd ddedfrydau o garchar o lai na 12 mis (o'i gymharu â 47% o ddynion).[2]

Mewn rhai achosion, gallai eu troseddau fod wedi'u hatal drwy ymyrraeth gynharach, gan gynnwys eu dargyfeirio o'r system gyfiawnder troseddol ac at gymorth. Gall methiant i ymyrryd yn gynnar ac i ddargyfeirio pan yn briodol arwain at euogfarnau, a all yn eu tro arwain at golli llety a chyflogaeth, amharu ar deuluoedd a phlant a dechrau cylch o droseddu sy'n pontio'r cenedlaethau.

Mae ymyrryd a dargyfeirio effeithiol yn gofyn am ymateb cydlynus gan ystod eang o adrannau'r llywodraeth ac asiantaethau statudol, yn enwedig yr heddlu a'r gwasanaeth iechyd, a fydd yn aml yn dod ar draws menywod agored i niwed sydd mewn perygl o droseddu. Mae angen i wasanaethau fod yn ymwybodol ac yn barod i ymateb i'r trawma, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol, y bydd llawer o'r menywod hyn wedi'i brofi. Mae gan wasanaethau sy'n ymatebol i drawma staff sydd wedi'u hyfforddi i ddeall amlder ac effaith trawma ac i sicrhau nad yw'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn cael eu hail-drawmateiddio gan unrhyw agwedd ar eu profiad.

---

1 Criminal Justice System statistics quarterly: June 2022 – GOV.UK (www.gov.uk)

2 Ibid

I weithredu ar ein hymrwymiadau mi fyddwn, mewn cydweithrediad â'r heddlu yn cynhyrchu pecyn cymorth tactegol i ddelio â menywod agored i niwed. Mae NHS England (NHSE) hefyd yn cynnal adolygiad o berfformiad ei ddull Cyswllt a Dargyfeirio at fenywod. Mae gan sefydliadau sector gwirfoddol menywod rôl hanfodol i'w chwarae drwy ddarparu'r gwasanaethau a'r ymyriadau angenrheidiol i ddiwallu anghenion menywod a byddwn yn parhau i fuddsoddi yn y gwasanaethau hyn.

## Partneriaid statudol a gwirfoddol yn gweithio'n fwy effeithiol â'i gilydd

**Nodau'r gwaith hwn:**
Mae gan lawer o fenywod sydd, neu sydd mewn perygl o fod, mewn cysylltiad â'r system gyfiawnder troseddol anghenion lluosog a chymhleth ac maent yn defnyddio llawer ar wasanaethau iechyd a statudol eraill. Mi wyddom fod dod â'r gwasanaethau a'r elusennau hyn at ei gilydd i weithio mewn partneriaeth i ddiwallu anghenion y grŵp hwn o fenywod yn gallu gwella canlyniadau, gan gynnwys eu dargyfeirio oddi wrth ymddygiad troseddol a lleihau'r galw am wasanaethau.

**Yr hyn rydym wedi'i wneud hyd yma:**
- Buddsoddi £9.5 miliwn yng ngwasanaethau'r sector cymunedol menywod ledled Cymru a Lloegr ers Mehefin 2018. Rydym hefyd wedi dyfarnu dros £45 miliwn i elusennau i ddarparu cymorth cofleidiol yn y gymuned i fenywod rhwng Mehefin 2021 a Mawrth 2025.
- Cyflwyno'r achos dros wella ac annog cydweithredu ar lefel leol a chenedlaethol drwy ein Concordat.
- Cyhoeddi'r offeryn data Menywod yn y System gyfiawnder Troseddol ym mis Ionawr 2021, sy'n cael ei ddefnyddio gan sefydliadau lleol a chenedlaethol i ymchwilio i ddata a thueddiadau, fel y troseddau a'r canlyniadau erlyn mwyaf cyffredin, ar draws ardaloedd daearyddol.
- Cynnal gweithdai â Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol i godi ymwybyddiaeth o'r data sydd ar gael y gellir eu dadansoddi'n ôl ardaloedd heddluoedd i bennu blaenoriaethau lleol a chymharu effeithiolrwydd wrth fynd i'r afael â phroblemau mewn ardaloedd tebyg.
- Cyhoeddi'r Tackling Domestic Abuse Plan (Mawrth 2022), sy'n cydnabod yr angen i sicrhau bod dioddefwyr cam-drin domestig yn cael eu canfod a'u bod yn cael cynnig cymorth o fewn y system gyfiawnder troseddol.
- Cyhoeddi Our Vision for the Women's Health Strategy for England (Rhagfyr 2021), sy'n nodi ein prif uchelgeisiau i wella iechyd a llesiant menywod a merched yn Lloegr, a gwella sut mae'r system iechyd a gofal yn gwrando ar fenywod.

**Byddwn yn:**

- Cynnal cystadleuaeth grantiau am hyd at £24m o gyllid grant aml-flwyddyn i helpu gwasanaethau cymunedol hanfodol ar gyfer menywod ac sy’n annog gweithio mewn partneriaeth lleol mwy cydlynus i roi sylw i anghenion menywod.
- Helpu oedolion sy’n wynebu anfanteision lluosog drwy’r rhaglen Changing Futures o dan arweiniad yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (DLUHC). Nod y rhaglen yw lleihau troseddu ac aildroseddu (ymhlith canlyniadau eraill) drwy fentrau sy’n cael eu harwain yn lleol i gydlynu cymorth sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn, fel canolfannau gwasanaeth uwch yn Swydd Gaerhirfryn sy’n dod â chymorth tai, triniaeth cyffuriau, iechyd ac iechyd meddwl ynghyd, fel y bydd pobl sy’n wynebu problemau lluosog yn cael yr help cydlynus sydd ei angen arnynt i newid eu bywydau er gwell.
- Parhau i gyfrannu at gyflawni rhaglen Supporting Families y DLUHC, sy’n gweithio ag ardaloedd lleol i gynnig cymorth i deuluoedd sy’n wynebu anfanteision lluosog gan gynnwys menywod yn y system gyfiawnder troseddol a’u teuluoedd. Gyda buddsoddiad ychwanegol o £200m yn y tair blynedd nesaf eisoes wedi’i gadarnhau, bydd y rhaglen yn ymdrechu i helpu 300,000 yn rhagor o deuluoedd agored i niwed. Mae Supporting Families wedi ymrwymo i hybu partneriaethau lleol amlasiantaethol cryf ym mhob awdurdod lleol ac i helpu i ddatblygu systemau data aeddfed yn lleol a chenedlaethol.
- Cyhoeddi canllaw i ardaloedd lleol ar sut y gallant wneud yn siŵr bod sefydliadau’n gweithio â’i gilydd i roi sylw i anghenion cymhleth menywod sydd, neu sydd mewn perygl o fod, mewn cysylltiad â’r system gyfiawnder, erbyn diwedd 2023.

## Plismona

**Nodau’r gwaith hwn:**

Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder, y Swyddfa Gartref, y Coleg Plismona, Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC), a Chymdeithas y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (APCC) yn gweithio â’i gilydd i sicrhau bod heddluoedd yn deall ac yn ymateb yn effeithiol i anghenion menywod pan fyddant yn dod i gysylltiad â’r heddlu am y tro cyntaf.

**Yr hyn rydym wedi’i wneud hyd yma:**

- Cyhoeddi canllaw ar gyfer heddluoedd ar weithio â menywod agored i niwed, sy’n cynnwys gwybodaeth am eu hanghenion penodol a chanllaw ar weithio’n effeithiol â hwy (2018). Yn 2019, gwahoddwyd heddluoedd i gwblhau holiadur ar effaith y canllaw, ac amlygodd hwnnw enghreifftiau o arferion da a meysydd lle mae angen rhagor o waith.
- Mae’r NPCC wedi sefydlu Gweithgor Menywod yn y System gyfiawnder Troseddol i gydlynu ac i roi ffocws i waith yr heddlu â menywod agored i niwed.

**Byddwn:**

- O dan arweinyddiaeth yr NPCC, byddwn yn datblygu Pecyn Cymorth Tactegol erbyn diwedd mis Mawrth 2023, i'w gwneud yn haws i Heddluoedd i ganfod a mabwysiadu arferion gweithio sy'n cael eu defnyddio eisoes. Bydd hyn yn cael ei ddilyn gan ddatblygiad canllaw cenedlaethol wedi'i seilio ar dystiolaeth i hybu mentrau arloesol ac effeithiol i wella ymateb plismona i fenywod sydd, neu sydd mewn perygl o fod, mewn cysylltiad â'r system gyfiawnder troseddol.
- Adolygu defnydd ac effeithiolrwydd Penderfyniadau y Tu Allan i'r Llys (OOCD) mewn ymateb i anghenion penodol menywod, gan gynnwys cyfleoedd i gysylltu amodau penodol i fenywod fel atgyfeirio at ganolfannau menywod am gymorth i roi sylw i'w hanghenion.

## Dargyfeirio

**Nodau'r gwaith hwn:**

Mewn rhai achosion mi wyddom pan ddaw menyw i gysylltiad â'r heddlu am y tro cyntaf, y canlyniad gorau i'r gymuned, yn ogystal ag i'r unigolyn a'i theulu, yw ei dargyfeirio at gymorth i roi sylw i'r problemau sy'n sail i'w hymddygiad troseddol. Mae NHS England wedi comisiynu Gwasanaethau Cyswllt a Dargyfeirio i ganfod pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl, anableddau dysgu, camddefnyddio sylweddau neu ffactorau eraill sy'n eu gwneud yn agored i niwed pan fyddant yn dod i gysylltiad â'r system gyfiawnder troseddol am y tro cyntaf fel rhywun dan amheuaeth, diffynyddion neu droseddwyr. Byddwn yn gweithio â'r heddlu a phartneriaid Cyswllt a Dargyfeirio i ganfod yn well ac i ddargyfeirio menywod o'r system gyfiawnder troseddol at gymorth, pan yn briodol.

**Yr hyn rydym wedi'i wneud hyd yma:**

- Mae pob gwasanaeth Cyswllt a Dargyfeirio yn Lloegr wedi penodi swyddog menywod arweiniol i sicrhau bod anghenion penodol menywod yn y system gyfiawnder troseddol yn cael eu hystyried mewn penderfyniadau a bod menywod yn cael eu cyfeirio at gymorth, pan yn briodol. Roedd **17,710** o fenywod wedi defnyddio gwasanaethau Cyswllt a Dargyfeirio yn ystod blwyddyn ariannol 2018/19.[3]

**Byddwn:**

- Yn cynnal adolygiad o'r gwasanaeth Cyswllt a Dargyfeirio ar gyfer Menywod i ganfod arferion gorau ac i gynhyrchu adroddiad gwersi a ddysgwyd, a fydd yn cynnig gwybodaeth a chymorth i ardaloedd a hoffai ddatblygu ymhellach eu gwasanaethau Cyswllt a Dargyfeirio ar gyfer menywod. Bydd yr adolygiad yn cyfrannu at ddatblygiad gwasanaeth parhaus yn ystod 2023.
- Yn cyhoeddi canllaw erbyn diwedd Ebrill 2023 i helpu menywod i ddeall beth sy'n digwydd ym mhob cam o'r system gyfiawnder troseddol, o arestio i ddedfrydu, gan

3 Women and the Criminal Justice System 2019 – GOV.UK (www.gov.uk)

gynnwys rolau'r ymarferwyr y bydd menywod yn dod ar eu traws ac ystyr y termau maent yn debygol o'u clywed. Bydd y canllaw o fudd i bob menyw sydd mewn cysylltiad â'r system gyfiawnder troseddol, a bydd hefyd yn adlewyrchu anghenion penodol rhai o gefndir lleiafrifoedd ethnig.

## Erlyniadau Heblaw'r Heddlu

**Nodau'r gwaith hwn:**
Byddwn yn gweithio ag erlynwyr heblaw'r heddlu i edrych ar opsiynau i roi sylw i'r nifer uchel o fenywod sy'n cael eu herlyn am droseddau fel peidio efadu ffi'r drwydded deledu, canfod ffactorau sy'n eu gwneud yn agored i niwed a chyfeirio menywod at gymorth.

**Byddwn:**
- Gweithio â'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r BBC i edrych ar opsiynau i dreialu swyddogion gorfodi i gyfeirio menywod at gymorth, er mwyn deall effeithiolrwydd y dull hwn.

| | **Yr hyn y byddwn yn ei fesur** | **Y sefyllfa bresennol** |
|---|---|---|
| **1.** | Nifer y menywod sy'n dod i gysylltiad â'r system gyfiawnder troseddol am y tro cyntaf (rhybuddiadau cyntaf, dedfrydau cyntaf) | Yn 2021, cafodd **17,332** o oedolion benywaidd eu rhybuddiad neu eu heuogfarn cyntaf.[4] |
| **2.** | Nifer y menywod a arestiwyd ledled Cymru a Lloegr[5] | Ym mlwyddyn ariannol 2020/21, cafodd **85,759** o fenywod eu harestio ledled Cymru a Lloegr.[6] |
| **3.** | Nifer y menywod a erlynwyd gan erlynwyr heblaw heddlu am droseddau lle maent wedi'u gorgynrychioli o'i gymharu â dynion (triwantiaeth, efadu ffi'r drwydded deledu, twyll budd-daliadau) | Yn 2021, dygwyd achos yn erbyn **3,370** o fenywod am driwantiaeth plentyn, dygwyd achos yn erbyn **36,335** o fenywod am efadu ffi'r drwydded deledu, a dygwyd achos yn erbyn **137** am droseddau twyll budd-daliadau. |

4 First time entrants (FTE) into the Criminal Justice System and Offender Histories: Year ending December 2021 – GOV.UK (www.gov.uk)

5 Mi all amcanestyniad o'r cynnydd yn niferoedd yr heddlu effeithio ar y metrig.

6 Police powers and procedures: Stop and search and arrests, England and Wales, year ending 31 March 2021 second edition – GOV.UK (www.gov.uk)

| | Yr hyn y byddwn yn ei fesur | Y sefyllfa bresennol |
|---|---|---|
| **4.** | Nifer y menywod yr ymdriniwyd â hwy drwy ddefnydd o Benderfyniadau y tu Allan i'r Llys (OCD) | Yn 2021, cafodd **9,566** o fenywod rhybuddiad a chafodd **2,057** Hysbysiad Cosb am Anrhefn.[7] |

7 Criminal Justice System statistics quarterly: December 2021 – GOV.UK (www.gov.uk)

# 2. Llai o fenywod yn cael dedfrydau byr o garchar gyda chyfran uwch yn cael eu rheoli'n llwyddiannus yn y gymuned

## Trosolwg

Rydym am weld mwy o fenywod yn cael eu rheoli'n effeithiol yn y gymuned, pan fydd y drosedd a gyflawnwyd yn caniatáu hynny, gyda mwy o fenywod yn aros yn nes at eu teuluoedd a'u rhwydweithiau cymorth ac yn ymgysylltu â chymorth adsefydlu i atal aildroseddu.

Roedd dros hanner yr oedolion benywaidd (58%) a bron hanner yr oedolion gwrywaidd (47%) a ryddhawyd o garchar rhwng Ebrill a Mehefin 2016 wedi aildroseddu o fewn blwyddyn.[8] Mae dedfryd gymunedol effeithiol yn golygu y bydd menywod yn llai tebygol o golli eu llety a'u cyflogaeth, gan eu galluogi i gael cymorth wedi'i dargedu i roi sylw i'w hanghenion, lleihau'r tebygrwydd o aildroseddu, a chyfyngu ar yr aflonyddwch i deuluoedd a phlant y menywod.

Ers cyhoeddi'r Strategaeth Troseddwyr Benywaidd yn 2018, mae cyfran y menywod sy'n cael dedfryd gymunedol wedi cynyddu rhywfaint o 5% i 6%.[9] Mae'r Papur Gwyn ar Ddedfrydu'n disgrifio ein huchelgais i feithrin hyder mewn opsiynau dedfrydu cymunedol ac rydym yn bendant ein bod am weld mwy o fenywod yn cael eu rheoli'n effeithiol yn y gymuned. I gyflawni hyn, bydd angen rhagor o wybodaeth ar y llysoedd am y problemau penodol y mae'r menywod ger eu bron yn eu hwynebu, ac argaeledd ac addasrwydd gwahanol opsiynau dedfrydu. Rydym hefyd yn treialu opsiynau dedfrydu newydd fel y Llys Datrys Problemau ym Mirmingham sy'n benodol ar gyfer menywod.

Mi wyddom fod y gall y risg o hunanladdiad fod yn uwch pan fydd carcharorion ar remand. Mewn carchardai menywod, mae nifer yr achosion o hunan-niweidio ymhlith menywod ar remand wedi codi 26% rhwng 2020 a 2021.[10] Byddwn felly'n chwilio am ffyrdd i annog opsiynau eraill heblaw remandio yn y ddalfa yn seiliedig ar amgylchiadau unigol y fenyw. Mae llysoedd eisoes yn ystyried amgylchiadau ac anghenion penodol unigolyn fel bod yn brif ofalydd, wrth benderfynu caniatáu mechnïaeth neu beidio.

---

8 MoJ (2018). Supporting data tables: Female offender strategy. Available at: https://www.gov.uk/government/publications/female-offender-strategy

9 Criminal Justice System statistics quarterly: June 2022 – GOV.UK (www.gov.uk)

10 Safety in custody: quarterly update to June 2022 – GOV.UK (www.gov.uk)

## Gweithio â llysoedd

**Nodau'r gwaith hwn:**
Mae dedfrydu'n fater i'r farnwriaeth annibynnol, ond byddwn yn gweithio â llysoedd i godi ymwybyddiaeth ac i gynyddu dealltwriaeth o'r materion penodol sy'n wynebu menywod sy'n troseddu, gan gynnwys rhai o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. Byddwn yn gwneud hyn drwy rannu'r wybodaeth ddiweddaraf ar addasrwydd ac argaeledd opsiynau dedfrydau cymunedol, a thystiolaeth o arferion da ac effeithiol.

**Yr hyn rydym wedi'i wneud hyd yma:**

- Rydym wedi cynnal cyfweliadau â barnwyr rhanbarth ac ynadon i glywed eu barn am eu profiad o ddedfrydu menywod. Defnyddiwyd hyn i ddatblygu canllaw i ymarferwyr, a pheilot i wella ansawdd ac amseroldeb adroddiadau cyn-dedfrydu (PSR).
- Rydym wedi datblygu canllaw ar gyfer ymarferwyr sy'n cwblhau PSR ar fenywod. Mae hwn yn amlygu meysydd allweddol y dylai ymarferwyr eu hystyried wrth asesu anghenion amrywiol menywod a gwneud cynnig cadarn ar gyfer dedfryd gymunedol sy'n seiliedig ar amgylchiadau unigol y fenyw.

**Byddwn:**

- Yn datblygu, darparu a chynnal deunyddiau briffio sy'n ategu sesiynau rhannu gwybodaeth rheolaidd, gan ddechrau'n gynnar yn 2023, ar gyfer y farnwriaeth a phawb sy'n gweithio mewn llysoedd. Bydd y deunyddiau'n codi ymwybyddiaeth o'r materion penodol sy'n wynebu menywod sy'n troseddu ac yn gwella dealltwriaeth o oblygiadau a chyfleoedd posibl dedfrydu.

## Remand

**Nodau'r gwaith hwn:**
Byddwn yn ymdrechu i annog opsiynau heblaw cadw yn y ddalfa os bydd hynny er lles cyfiawnder. Ar gyfartaledd, mae troseddwyr benywaidd yn cyflawni troseddau llai difrifol na throseddwyr gwrywaidd ac maent yn aml yn risg isel neu ganolig o achosi niwed i'r cyhoedd. Yn 2021, roedd 25% o'r holl achosion o hunan-niweidio mewn carchardai benywaidd wedi digwydd ar remand.[11]

**Yr hyn rydym wedi'i wneud hyd yma:**
Rydym wedi sicrhau bod gennym Swyddog Gwybodaeth Mechnïaeth ym mhob carchar menywod lle mae carcharorion ar remand yng Nghymru a Lloegr i roi cyngor am fechnïaeth, sy'n seiliedig ar amgylchiadau unigol y fenyw.

---

[11] Safety in custody: quarterly update to June 2022 – GOV.UK (www.gov.uk)

**Byddwn:**

- Yn dechrau treialu adroddiadau mechnïaeth gwrandawiad cyntaf yn llysoedd ynadon Caerdydd ac Ipswich erbyn diwedd 2022 i sicrhau bod y llysoedd hyn yn cael cyngor gan y Gwasanaeth Gwybodaeth Mechnïaeth (BIS) ar bob diffynnydd benywaidd. Byddwn yn sicrhau bod BIS yn ystyried ffactorau diwylliannol a materion sensitif er mwyn helpu i sicrhau bod blaenoriaeth yn cael ei roi ac y gwneir defnydd priodol o fechnïaeth i fenywod o grwpiau lleiafrifol a rhai sy'n wladolion tramor. Byddwn yn cynyddu'r defnydd o fonitro electronig lle gall hyn leihau cadw menywod yn y ddalfa.
- Diddymu pŵer llysoedd i gadw carcharorion yn y ddalfa er mwyn eu hamddiffyniad eu hunain ar sail iechyd meddwl. Cafodd cymalau eu cynnwys yn y Bil Iechyd Meddwl drafft a gyhoeddwyd ar 27 Mehefin 2022 ac sydd ar hyn o bryd yn destun craffu cyn deddfu.

## Dedfrydau cymunedol

**Nodau'r gwaith hwn:**

Byddwn yn ymdrechu i ostwng cyfran yr holl fenywod sy'n cael eu dedfrydu i garchar yn syth, yn enwedig ar ddedfrydau byr. Roedd ein Papur Gwyn Smarter Approach to Sentencing (Medi 2020) yn cyflwyno ein cynlluniau ar gyfer opsiynau dedfrydu cymunedol llymach, sy'n cael eu monitro'n well ac sy'n fwy effeithiol, ac sy'n rhoi cosbau priodol ond sydd hefyd yn rhoi sylw i ffactorau sylfaenol troseddu ac sy'n cynnig cymorth i'r rhai sydd am roi trefn ar eu bywydau. Byddwn yn sicrhau bod gan lysoedd opsiynau dedfrydu cymunedol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n gadarn ac sy'n rhoi'r cyfleoedd hyn i fenywod.

**Yr hyn rydym wedi'i wneud hyd yma:**

- Ym mis Ebrill 2021, cychwynnodd peilot PSR mewn 15 o lysoedd ynadon yng Nghymru a Lloegr, sy'n cynnwys rhoi pwyslais ar droseddwyr benywaidd ar gyfer PSR wedi'u hysgrifennu'n llawnach, ymhlith carfanau eraill sy'n wybyddus fel rhai ag anghenion mwy cymhleth.
- Rydym wedi deddfu yn Neddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022 i alluogi treialu dulliau PSC ar gyfer carfanau gwahanol, gan gynnwys menywod. Bydd PSC yn cynnig dedfryd gymunedol ddwys gydag elfennau penodol fel dewis yn lle carchar.
- Mae newidiadau i fonitro electronig yn golygu bod gan lysoedd fwy o hyblygrwydd a dewis ehangach o dechnolegau i annog datrysiadau dedfrydu cymunedol. Yn 2021, cwblhawyd y broses o gyflwyno'r Gofyniad Monitro ac Ymwrthod ag Alcohol i fynd i'r afael yn uniongyrchol â throseddu sy'n gysylltiedig ag alcohol, ac mae hwn yn gosod gwaharddiad ar alcohol am hyd at 120 diwrnod ac mae'n defnyddio tagiau alcohol i fonitro cydymffurfiaeth.
- Mae Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd Act 2022 yn dyblu uchafswm hyd cyrffiw i ddwy flynedd ac mae'n cynyddu uchafswm yr oriau dyddiol o 16 i 20 (gan

gadw'r uchafswm wythnosol o 112 o oriau), gan roi'r opsiwn i'r llysoedd i osod cyrffiw ar ddyddiau lle na fydd gan droseddwyr ofynion eraill. Mae'r Ddeddf hefyd yn galluogi prawf i newid oriau a lleoedd y cyrffiw; newid amseroedd dechrau/gorffen a newid cyfeiriadau mewn ffordd fwy amserol na gorfod dychwelyd i'r llys.

**Byddwn:**

- Yn edrych ar opsiynau i gynyddu darpariaeth breswyl y gellid ei defnyddio fel rhan o orchymyn cymunedol cadarn yn lle dedfrydau byr o garchar, gan alluogi menywod i aros yn nes at eu teuluoedd a'u cymuned gyda chymorth i roi sylw i anghenion sydd wrth wraidd eu hymddygiad troseddol.
- Treialu PCS, gan gynnwys un safle ym Mirmingham a fydd yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar fenywod.
- Gellir dysgu drwy fathau eraill o gynlluniau peilot PSC a fydd hefyd yn gweld troseddwyr benywaidd, yn enwedig y PSC Camddefnyddio Sylweddau (Llys y Goron).
- Byddwn yn cyhoeddi gwerthusiad o'r peilot PSR yng ngwanwyn 2023 gan ystyried y camau nesaf ar yr adeg honno.
- Erbyn canol 2024 bydd y gwaith o gyflwyno safleoedd Gofyniad Triniaeth Dedfryd Gymunedol wedi'i gwblhau ac yn ychwanegol at ddarparu llwybrau Gofyniad Triniaeth Iechyd Meddwl ar gyfer pob oedolyn, byddwn hefyd yn cynnwys llwybrau pwrpasol ar gyfer menywod.

| | Yr hyn y byddwn yn ei fesur | Y sefyllfa bresennol |
|---|---|---|
| **1.** | Canlyniadau dedfrydu (%) ar gyfer menywod, gan gynnwys % a ddedfrydwyd i garchar yn syth ac sy'n cael gorchymyn cymunedol | Yn 2021, cafodd **83%** o fenywod a ddedfrydwyd ddirwy, cafodd **6%** ddedfryd gymunedol, cafodd **2%** ddedfryd o garchar yn syth, cafodd **3%** ddedfryd ohiriedig, a deliwyd yn wahanol â'r **4%** arall neu cawsant eu rhyddhau'n amodol.[12] |
| **2.** | Nifer y menywod a ddedfrydwyd i garchar am <6/12 mis | Yn 2021, cafodd **2,905** o fenywod ddedfryd o garchar yn syth o 12 mis neu lai, gyda'r mwyafrif ohonynt (**2,573**) yn cael dedfryd o garchar o 6 mis neu lai.[13] |
| **3.** | Nifer y menywod a ddedfrydwyd a dderbyniwyd i garchar ar ddedfryd o <6/12 mis | Yn 2021, cafodd **1,976** o fenywod eu derbyn i garchar ar ddedfryd o 12 mis neu lai, gyda **1,564** ohonynt wedi'u dedfrydu i 6 mis neu lai.[14] |

[12] Criminal Justice System statistics quarterly: December 2021 – GOV.UK (www.gov.uk)

[13] Ibid

[14] Offender Management Statistics quarterly: October to December 2021 – GOV.UK (www.gov.uk)

| | **Yr hyn y byddwn yn ei fesur** | **Y sefyllfa bresennol** |
|---|---|---|
| **4.** | % o ddiffynyddion benywaidd wedi cael mechnïaeth / eu cadw yn y ddalfa | Yn 2021, cafodd **25%** o ddiffynyddion benywaidd mewn Llysoedd y Goron eu cadw yn y ddalfa, roedd **51%** ar fechnïaeth. Mewn Llysoedd Ynadon, roedd **14%** ar fechnïaeth, a chafodd **1%** eu cadw yn y ddalfa.[15] |
| **5.** | % o ganlyniadau dedfrydu ar gyfer menywod a gadwyd yn y ddalfa | Yn 2021, cafodd **13%** o fenywod a gadwyd yn y ddalfa mewn Llys Ynadon eu dedfrydu i garchar yn syth, cafodd **6%** ddedfryd gymunedol, a chafodd **6%** ddedfryd ohiriedig, a chafodd **3%** eu dirwyo. Yn Llys y Goron, cafodd **56%** garchar yn syth, cafodd **6%** ddedfryd gymunedol, cafodd **17%** ddedfryd ohiriedig, a chafodd llai nag **1%** eu dirwyo.[16] |

15 Criminal Justice System statistics quarterly: December 2021 – GOV.UK (www.gov.uk)

16 Ibid

# 3. Canlyniadau gwell i fenywod mewn carchar

## Trosolwg

Mi fydd rhai menywod bob amser sydd wedi cyflawni troseddau sydd mor ddifrifol fel na fydd y llys yn gallu ystyried dedfryd heblaw carchar. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu cymorth ac amgylcheddau adsefydlu priodol a fydd yn galluogi menywod i roi sylw i achosion sylfaenol eu hymddygiad troseddol ac i leihau'r siawns y byddant yn aildroseddu ar ôl cael eu rhyddhau.

Mae tystiolaeth yn dangos bod sicrhau diogelwch yn hanfodol i alluogi carcharorion i roi sylw i'w hanghenion troseddu. Mi wyddom fod merched mewn carchar yn arbennig o agored i niwed, gydag amlder uwch o broblemau iechyd meddwl na charcharorion gwrywaidd; a chyfradd hunan-niweidio sydd saith gwaith yn uwch nag ymhlith dynion, gyda menywod ifanc (18-24 oed) yn cyfrif am 36% o'r holl achosion yn 2021 er eu bod yn cyfrif am tua 10% yn unig o'r boblogaeth o fenywod mewn carchar. Er bod nifer cyfartalog y digwyddiadau hunan-niweidio'r pen o garcharorion benywaidd unigol wedi codi o 6.6 ym Mehefin 2012 i 11.5 yn 2022, bu gostyngiad o 10% yn nifer y menywod sy'n hunan-niweidio yn ystod y degawd diwethaf. Mi wyddom, hefyd y gall menywod o leiafrifoedd ethnig fod â'r un anghenion cymhleth, ond yn aml maent yn profi gwahaniaethau ychwanegol sy'n deillio o'u hethnigrwydd, ffydd, diwylliant, neu anghenion iaith. Mae menywod mewn carchar hefyd yn fwy tebygol na charcharorion gwrywaidd o fod yn brif ofalwyr am blant dibynnol.

Rydym yn ymdrechu i leihau lefelau o hunan-niweidio drwy roi prawf ar ddull pwrpasol i reoli menywod ifanc drwy lefelau uwch o gymorth a chynyddu'r cymorth arbenigol sydd ar gael i rai o'r menywod mwyaf cymhleth mewn carchardai. Byddwn hefyd yn cynyddu cymorth i fenywod sydd newydd gyrraedd carchar, adeg lle mae risg uwch o hunan-niweidio a hunanladdiad.

Mae ymchwil yn dangos yn achos carcharor sy'n cael ymweliadau gan aelod o'r teulu bod y tebygrwydd o aildroseddu ar ôl eu rhyddhau 39% yn is nag yn achos rhai nad ydynt yn cael ymweliadau o'r fath.[17] Rydym wedi ymrwymo i wella perthnasoedd teuluol, yn ogystal â'r cymorth i fenywod beichiog a mamau mewn carchar. Byddwn yn treialu gweithwyr cymdeithasol mewn carchardai, i weld i ba raddau maent yn gwella perthnasoedd a

[17] Landmark review places family ties at the heart of prison reform – GOV.UK (www.gov.uk) https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/ukgwa/20110201125714/http:/www.justice.gov.uk/publications/docs/research-factors-reoffending.pdf

diogelu plant, a byddwn yn cynyddu'r ddarpariaeth cymorth teulu yng ngharchardai menywod. Byddwn yn hyfforddi ein gweithlu i ddarparu cymorth sy'n briodol i anghenion y menywod yn ein gofal, a thrwy gyfleusterau newydd byddwn yn gwella amgylchedd ein carchardai menywod i hybu llesiant ac adsefydlu. I helpu ein nod o gyflawni canlyniadau gwell i fenywod mewn carchar, byddwn yn buddsoddi hyd at £14m i wella adnoddau, gan gynnwys ehangu gwasanaethau therapiwtig, rhwng 2022 a 2025.

## Diogelwch

**Nodau'r gwaith hwn:**
Mae'n hanfodol bod menywod yn teimlo'n ddiogel mewn carchar os ydynt am gymryd rhan yn effeithiol mewn gweithgarwch adsefydlu. Mi wyddom fod yr wythnosau cynnar yn y ddalfa'n adeg arbennig o anodd i fenywod, gyda risg uwch o hunan-niweidio a hunanladdiad, a bod menywod ifanc (18-25 oed) yn wynebu heriau penodol. Byddwn yn gwella diogelwch i bob menyw mewn carchar ac yn lleihau nifer a difrifoldeb yr achosion o hunan-niweidio drwy ehangu gwasanaethau therapiwtig ac edrych sut y gallwn leihau'r angen i fenywod symud rhwng carchardai.

**Yr hyn rydym wedi'i wneud hyd yma:**
- Sefydlu Tasglu Hunan-niweidio i fynd i'r afael â chyfraddau uchel o hunan-niweidio mewn carchardai menywod.
- Hyfforddi staff mewn carchardai menywod i ddeall sut i weithio'n effeithiol â menywod sydd wedi profi trawma, fel cam-drin domestig neu drais rhywiol. Wedi ariannu cymorth seicoleg i weithio â'r menywod mwyaf agored i niwed i leihau ymddygiad annymunol fel hunan-niweidio neu drais tuag at eraill.
- Cyflwyno model Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa (OMiC) pwrpasol ar gyfer menywod, gan roi gweithiwr allweddol i bob menyw sydd yno i arwain, helpu, a hyfforddi unigolion drwy gydol eu cyfnod yn y carchar.

**Byddwn yn:**
- Datblygu ac yn cyhoeddi Strategaeth Menywod Ifanc (18–25 oed) sy'n ymestyn ar draws yr holl system gyfiawnder troseddol, gan gynnwys canllawiau arferion gorau i helpu menywod ifanc yn y ddalfa.
- Datblygu a rhoi prawf ar ddull pwrpasol i reoli menywod ifanc mewn dau garchar, gan gynnwys dull 'camu i lawr' i bontio'r bwlch rhwng y lefel uchel o gymorth a ddarperir mewn gwasanaethau Ieuenctid yn y Ddalfa a'r ddarpariaeth i oedolion yn y ddalfa.
- Ehangu gwasanaethau therapiwtig i ddiwallu anghenion y menywod mwyaf agored i niwed yn ein gofal drwy recriwtio staff seicoleg ychwanegol erbyn mis Mawrth 2023.
- Ymdrechu i leihau'r pellter o gartref a hunan-niweidio sy'n gysylltiedig â symud rhwng carchardai i fenywod drwy edrych ar opsiynau i HMP/YOI Downview a HMP/YOI Drake Hall i dderbyn menywod o'r llysoedd.

- Datblygu a threialu dull uwch o helpu menywod yn ystod eu hwythnosau cyntaf yn y ddalfa, yr adeg pan fydd llawer ohonynt fwyaf agored i niwed.

## Ein gweithlu

**Nodau'r gwaith hwn:**
Mae'n hanfodol bod gennym weithlu hyfedr dros ben sy'n deall ac yn gallu diwallu anghenion cymhleth menywod yn y ddalfa, gan gynnwys problemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau, a chefndir o gam-drin.

Byddwn yn proffesiynoleiddio'r gweithlu carchar a phrawf drwy hyfforddiant, arweiniad a chyflwyno rolau newydd, a fydd yn eu gwneud yn fwy galluog i ddiwallu anghenion menywod yn y ddalfa.

**Yr hyn rydym wedi'i wneud hyd yma:**
- Cyhoeddi Fframwaith Polisi sy'n disgrifio'r dyletswyddau, y rheolau, a'r disgwyliadau ar gyfer darparu gwasanaethau a chanllawiau cyffredinol ar gyfer staff carchar a phrawf sy'n gweithio â throseddwyr benywaidd.
- Penodi Arweinydd Diogelwch penodol yn HMPPS i roi arweinyddiaeth gref i fynd i'r afael â'r lefelau uchel o hunan-niweidio mewn carchardai menywod.
- Cyflwyno hyfforddiant i'r holl staff carchar a phrawf ar sut i helpu i ddiwallu anghenion penodol menywod. Gall y rhain helpu menywod i roi sylw i brofiadau trawmatig yn y gorffennol (e.e. trais domestig) ac ail-adeiladu eu hunanhyder, a galluogi mamau i chwarae rhan ym magwraeth eu plant tra byddant wedi'u gwahanu oddi wrthynt.

**Byddwn:**
- Erbyn mis Mawrth 2023, yn cyflwyno proses newydd i ddenu a dethol Swyddogion Carchar newydd gyda'r profiad a'r sgiliau cywir i weithio mewn carchardai menywod yn benodol.
- Gwella mynediad at gymorth ar gyfer cam-drin domestig neu drais rhywiol drwy recriwtio gweithwyr arbenigol mewn carchardai menywod.
- Gweithio â phartneriaid i ddatblygu peilot ar gyfer hyd at dri o weithwyr cymdeithasol mewn carchardai menywod i helpu mamau yn y ddalfa, cynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar Unedau Mamau a Babanod (MBU), helpu menywod drwy brosesau llysoedd a pharatoi mamau i ailsefydlu gyda'u plant.
- Yn 2023, cyflwyno gweithwyr ymgysylltu teuluol mewn carchardai i helpu menywod i gynnal perthnasoedd teuluol iach yn ystod eu dedfryd ac i baratoi ar gyfer ailsefydlu.
- Gan ategu hyfforddiant cymhwystra diwylliannol ehangach ar gyfer staff HMPPS drwy'r Race Action Programme, byddwn yn datblygu hyfforddiant i staff sy'n gweithio â throseddwyr sy'n wladolion tramor a menywod o gefndir lleiafrif ethnig mewn rheoli troseddwyr ac adsefydlu, i gynyddu ymwybyddiaeth o effaith diwylliant, ffydd, a chynnal perthnasoedd teuluol.

# Iechyd a Llesiant

**Nodau'r gwaith hwn:**
Mae gan fenywod yn y ddalfa lefelau uchel o anghenion iechyd, gan gynnwys problemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau, ac mae llawer wedi profi cam-drin domestig a/neu rywiol. Mae gan rai carfanau, fel menywod beichiog, menywod sydd wedi bod mewn gofal a menywod o leiafrifoedd ethnig, anghenion iechyd a llesiant penodol, ac mae marwolaeth drychinebus dau faban mewn carchardai yn y blynyddoedd diwethaf wedi dangos pa mor bwysig yw hi ein bod yn darparu'r gofal y dylent ddisgwyl ei gael i'r menywod hyn. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu gofal iechyd o'r un safon i'r menywod hyn ag y byddent yn ei gael yn y gymuned i'r menywod hyn. Mae rhoi sylw effeithiol i iechyd a llesiant yn hanfodol i wella canlyniadau ac ailsefydlu ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o garchar.

**Yr hyn rydym wedi'i wneud hyd yma:**
- Cyhoeddi Fframwaith Polisi Cryfhau Cysylltiadau Teuluol Carcharorion (Ionawr 2019), sy'n cyflwyno rheolau a chanllawiau i staff carchardai ar helpu carcharorion i gynnal a datblygu perthnasoedd â'u teuluoedd, ffrindiau a phobl allweddol eraill yn eu bywydau.
- Adolygu sut mae Unedau Mamau a Babanod (MBU) yn cael eu rhedeg a sut yr ydym yn rheoli ein menywod mwyaf cymhleth, a chyhoeddi fframwaith polisi newydd sy'n disgrifio disgwyliadau a chanllawiau i staff mewn carchardai ar feichiogrwydd, Unedau Mamau a Babanod, a gweithio â mamau sydd wedi'u gwahanu oddi wrth blant hyd at ddwyflwydd oed.
- Cyflwyno Swyddogion Cyswllt Beichiogrwydd a MBU ym mhob carchar menywod i sicrhau gofal effeithiol i'r garfan hon o fenywod a'u babanod.
- Gweithredu ar 25 o'r 33 argymhelliad yn Adolygiad yr Arglwydd Farmer, sydd â'r nod o helpu menywod i gynnal a chryfhau eu perthnasoedd â'u teuluoedd, plant, a pherthnasoedd arwyddocaol eraill yn y gymuned.
- Ymateb i ganfyddiadau adolygiad y Prif Weithiwr Cymdeithasol o MBU. Roedd yr adolygiad, a gyhoeddwyd ar 24 Tachwedd 2022, yn ystyried ceisiadau i MBU rhwng 2018 a 2020 ac yn cynnwys canfyddiadau arolwg o weithwyr cymdeithasol ar eu gwybodaeth, eu hagweddau, a'u profiad o weithio â mamau mewn carchar.

**Byddwn yn:**
- Cwblhau ac yn cyhoeddi cyd-adolygiad o Iechyd a Gofal Cymdeithasol Carchardai Menywod gan NHS England a HMPPS ac yn cytuno ar gamau nesaf i weithredu ar ei ganfyddiadau a'i argymhellion.
- Cyflwyno rheolwyr iechyd ac amenedigol mewn carchardai menywod caeedig erbyn Mawrth 2023, i roi arweinyddiaeth i sicrhau bod menywod yn cael gofal amserol a phriodol.
- Datblygu canllaw gweithredol i alluogi staff i ddeall anghenion perthnasoedd menywod o leiafrifoedd ethnig yn well, lle mae'r rhain yn wahanol i fwyafrif poblogaeth y carchar.

- Gweithio â'r Adran Addysg i ystyried opsiynau i wella gwelededd plant carcharorion yn y system addysg, a gweithio ar y cyd i wella ein dealltwriaeth o raddfa'r mater.
- Drwy'r prosiect Canlyniadau Gwell ar gyfer Data Cysylltiedig (BOLD) byddwn yn edrych ar rannu data i wella ein dealltwriaeth o nifer y plant â rhieni mewn carchar a sut y mae caethiwo rhieni'n effeithio ar ganlyniadau i blant, gan gynnwys addysg, cyflogaeth a throseddu yn y dyfodol.

## Amodau mewn carchardai

**Nodau'r gwaith hwn:**
Mi wyddom fod yr amodau ffisegol y mae menywod yn byw ynddynt yn gallu cael effaith sylweddol ar ganlyniadau, a bod angen i fenywod yn benodol deimlo'n ddiogel os ydynt am ymgysylltu'n effeithiol â'r materion sy'n aml yn rhai cymhleth ac sy'n sail i'w hymddygiad troseddol, gan gynnwys iechyd meddwl, cam-drin domestig a rhywiol, a chamddefnyddio sylweddau. Rydym wedi ymrwymo i ystâd menywod sy'n cynnig llety derbyniol sy'n hybu adsefydlu.

**Yr hyn rydym wedi'i wneud hyd yma:**
- Rydym yn dylunio ac yn caffael cyfleusterau newydd a fydd yn helpu menywod i ddatblygu sgiliau bywyd ac sy'n rhoi sylw'n effeithiol i'w hanghenion. Mae'r dyluniadau'n seiliedig ar brofiadau o fywyd menywod yn y ddalfa a bydd yn helpu menywod i gymryd rhan mewn gweithgarwch adsefydlu.

**Byddwn yn:**
- Datblygu Safonau Dylunio ar gyfer llety newydd yn ystâd carchar y menywod a fydd yn hybu adsefydlu effeithiol, yn adeiladu ar ein dysgu yn sgil gwaith cyfredol i ddatblygu cyfleusterau newydd yn ystâd y menywod.
- Parhau i weithio i ddarparu cyfleusterau newydd mewn carchardai menywod, drwy gyfuniad o leoedd Agored a Chaeedig. Bydd darpariaeth agored newydd mewn mwy o safleoedd yn galluogi menywod i wneud cynnydd yn eu sefydliad heb orfod symud yn bellach o'u cartrefi, gan eu galluogi i gynnal cysylltiadau teuluol a rhwydweithiau cymorth. Bydd hyn yn gwella cyfleoedd ar gyfer addysg a chyflogaeth yn nes at eu cartref, a chynyddu sefydlogrwydd, sy'n bwysig i fenywod yn y ddalfa.
- Datblygu'r egwyddorion ar gyfer ein huchelgais yn y tymor hwy i gyflwyno amgylcheddau llai, sy'n ymatebol i drawma i fenywod ar ddedfrydau byr. Bydd hyn yn cynnwys pwyslais ar ddarparu darpariaeth gymunedol mewn carchardai, gyda phwyslais ar faterion caethiwed ac anghenion cymhleth, a chadw menywod yn nes at eu cartref.

| | **Yr hyn y byddwn yn ei fesur** | **Y sefyllfa bresennol** |
|---|---|---|
| **1.** | Cyfradd hunan-niweidio o bob 1,000 mewn sefydliadau benywaidd | Yn 2021, roedd y gyfradd hunan-niweidio mewn carchardai benywaidd yn **3,697** o achosion o hunan-niweidio fesul 1,000 o garcharorion.[18] |
| **2.** | Nifer yr achosion o hunan-niweidio fesul unigolyn | Yn 2021, roedd y carcharorion benywaidd a hunan-niweidiodd wedi gwneud hynny **10.6** o weithiau ar gyfartaledd.[19] |
| **3.** | % o’r boblogaeth carchardai benywaidd sy’n hunan-niweidio | Yn 2021, roedd cyfanswm o **1,114** o garcharorion benywaidd wedi hunan-niweidio – roedd hyn yn cyfateb i **33%** o’r boblogaeth mewn carchardai benywaidd.[20] |

Yn ychwanegol at y rhain, byddwn yn monitro sgoriau Mesur Ansawdd Bywyd Carchar (MQPL) ar berthnasoedd â staff, datblygiad, a chysylltiad â’r teulu mewn carchardai benywaidd. Bydd canlyniadau prawf carchardai iach Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi (HMIP) ar gyfer diogelwch a pharch mewn carchardai menywod hefyd yn cael eu hadolygu, pan fyddant yn cael eu harolygu.

18 Safety in custody: quarterly update to December 2021 – GOV.UK (www.gov.uk)

19 Ibid

20 Offender Management Statistics quarterly: October to December 2021 – GOV.UK (www.gov.uk)

# 4. Amddiffyn y cyhoedd drwy well canlyniadau i fenywod ar adeg eu rhyddhau

## Trosolwg

Dim ond 4% o’r menywod a adawodd garchar a oedd mewn cyflogaeth chwe wythnos ar ôl cael eu rhyddhau yn 2020/21, o’i gymharu â 10% o’r dynion a adawodd garchar. Mae’r bedwaredd flaenoriaeth hon yn cyd-fynd â gwaith ehangach y llywodraeth ar leihau aildroseddu drwy ailsefydlu effeithiol drwy ganolbwyntio ar yr hyn y gwyddom sy’n gweithio: cartref, swydd a mynediad at driniaeth at gam-drin sylweddau. Drwy’r Cynllun Cyflawni hwn byddwn yn adeiladu ar y gwaith hwnnw drwy roi pwyslais ar y materion penodol sy’n wynebu menywod. Byddwn yn sicrhau bod y cymorth a gaiff menywod mewn carchardai i oresgyn eu hanghenion cymhleth yn parhau yn y gymuned.

Byddwn yn darparu cymorth wedi’i deilwra iddynt drwy Basbortau Ailsefydlu, gan ddwyn ynghyd yr hanfodion sydd eu hangen ar rai sy’n gadael carchar i fyw bywydau heb droseddu ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Byddwn yn eu helpu i gael gwaith drwy gyflwyno Canolfannau Cyflogaeth, Byrddau Cynghori Cyflogaeth ac Arweinyddion Cyflogaeth ym mhob carchar menywod. Byddwn yn sicrhau na fydd unrhyw fenyw sy’n cael goruchwyliaeth prawf yn gadael carchar yn ddigartref drwy barhau i redeg y gwasanaeth llety dros dro.

## Addysg a Chyflogaeth

**Nodau’r gwaith hwn:**
Mae angen cymorth wedi’i deilwra ar fenywod mewn carchar sy’n rhoi sylw i’w hanghenion gwahanol, sy’n cynnwys y ffaith mai hwy sydd fwyaf tebygol o fod yn brif ofalwr plentyn, neu fod ganddynt anghenion cymhleth, fel hanes o gamdriniaeth neu broblemau iechyd meddwl, a all eu hatal rhag manteisio’n llawn ar y cymorth a gynigir iddynt. Byddwn yn gweithredu i godi lefelau rhifedd, llythrennedd, sgiliau, a chymwysterau menywod fel y byddant yn fwy tebygol o gael gwaith neu brentisiaeth ar ôl cael eu rhyddhau.

**Yr hyn rydym wedi’i wneud hyd yma:**
- Diwygio addysg mewn carchardai i roi mwy o reolaeth i lywodraethwyr dros addysg yn eu carchardai, fel y gallant ei addasu ar gyfer anghenion menywod.
- Sefydlu brocer cyflogaeth pwrpasol ar gyfer ystâd y menywod yn y tîm Futures Network (NFN). Mae NFN yn dîm arbenigol o fewn HMPPS sy’n gyfrifol am gyflogaeth. Mae’n

datblygu partneriaethau rhwng cyflogwyr, carchardai a phrawf i helpu busnesau i lenwi bylchau sgiliau ac i helpu rhai sy'n gadael carchar i gael gwaith.
- Mae gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) hyfforddwyr gwaith sydd wedi'u lleoli ym mhob carchar menywod sy'n darparu cymorth cyflogaeth drwy gydol eu dedfryd, ac yn eu helpu i fanteisio ar fuddion i'w paratoi ar gyfer eu rhyddhau.

**Byddwn yn:**
- Cyflwyno Arweinyddion Cyflogaeth Carchar, Canolfannau Cyflogaeth a Byrddau Cynghori Cyflogaeth ym mhob carchar menywod i gynyddu nifer y menywod sy'n gadael carchar gyda swydd.
- Sicrhau bod gan bob carchar menywod Weinyddwyr Prawf Adnabod a Bancio i sicrhau bod gan bob menyw brawf adnabod a chyfrif banc pan gânt eu rhyddhau.
- Cynnal cynhadledd cyflogaeth yn Ionawr 2023 i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd cyflogaeth a'r gwahanol heriau sy'n wynebu menywod pan fyddant yn gadael carchar. Yn y digwyddiad, byddwn yn casglu adborth ac yn cofnodi arferion gorau i ddatblygu canllawiau sy'n benodol i fenywod ar gyfer Byrddau Cynghori Cyflogaeth fel y gallant gael effaith bositif ar fywydau menywod sy'n gadael carchar, lleihau aildroseddu a diwallu anghenion recriwtio cyflogwyr.
- Datblygu canllaw cwricwlwm i sicrhau ei fod yn ymatebol o safbwynt rhyweddol, yn ystyriol o drawma ac yn cynnwys darpariaeth sy'n helpu carcharorion i ddatblygu sgiliau llesiant, hyder, cymhelliant ac i feithrin cydnerthedd.
- Galluogi pob carcharor benywaidd i ddatblygu cynlluniau dysgu personol fel y gallant olrhain eu deilliannau dysgu a sgiliau drwy gydol eu dedfryd, erbyn mis Mawrth 2025.
- Cyflawni'r Gronfa Arloesi Cyflogaeth dros gyfnod o dair blynedd i alluogi Llywodraethwyr i weithio â mwy o gyflogwyr a darparwyr hyfforddiant i addasu gweithdai, darparu hyfforddiant sgiliau sector penodol i ddiwallu anghenion economi sy'n newid ac i hwyluso'r llwybr o garchar i gyflogaeth.
- Fel rhan o gynllun cyffuriau 10 mlynedd y Llywodraeth, mae'r DWP wedi ymrwymo i fuddsoddi £21m i ehangu Lleoliadau a Chymorth Unigol ar gyfer Dibyniaeth ar Gyffuriau ac Alcohol ledled Lloegr erbyn 2025 i helpu'r sawl sy'n cael triniaeth, gan gynnwys troseddwyr gwrywaidd a benywaidd, i helpu i oresgyn rhwystrau rhag cyflogaeth, ac £8m mewn cymorth cyflogaeth ehangach, gan gynnwys rhaglen mentora cymheiriaid i helpu unigolion â dibyniaeth tuag at adferiad ac i symud yn nes at waith.
- Buddsoddi mewn cymorth arbenigol mewn carchardai, fel Pennaeth Addysg, Sgiliau a Gwaith (HESW) arbenigol, a fydd yn gweithio i wella canlyniadau addysg a chyflogaeth.
- Cyflwyno Rheolwyr Cymorth ar gyfer rhai ag anghenion dysgu ychwanegol ym mhob carchar menywod erbyn mis Mawrth 2024, gan helpu i sicrhau bod y carcharorion hynny'n cael manteisio ar gyfleoedd addysg, sgiliau a gwaith.

# Llety

**Nodau'r gwaith hwn:**
Mae llety ar adeg rhyddhau'n hanfodol i sicrhau bod menywod sy'n gadael y ddalfa'n gallu parhau i roi sylw i achosion eu troseddu. Byddwn yn sicrhau nad oes dim troseddwyr benywaidd sy'n destun goruchwylio prawf yn gadael carchar yn ddigartref, a bod goruchwyliaeth prawf yn y gymuned yn rhoi sylw i bryderon am lety amhriodol. Byddwn hefyd yn hwyluso dychwelyd i gymdeithas drwy wneud y defnydd gorau o leoedd carchar Agored a Rhyddhau ar Drwydded Dros Dro, sy'n galluogi rhai carcharorion i adael carchar am ddiwrnod neu dros nos, gan gynnwys chwilio am, ac i fynychu gwaith, a meithrin cysylltiadau teuluol.

**Yr hyn rydym wedi'i wneud hyd yma:**
- Lansio gwasanaeth llety dros dro newydd (Gwasanaeth Llety Cymunedol-Haen 3 (CAS3)) mewn pum rhanbarth prawf yng Ngorffennaf 2021. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnig hyd at 12 wythnos o lety i rai sy'n gadael carchar yn ddigartref ynghyd â chymorth i'w helpu i symud i lety sefydlog.
- Rhwng 1 Gorffennaf 2021 a 17 Mehefin 2022, cafodd tua 2,400 o unigolion, a fyddai wedi bod yn ddigartref fel arall, eu derbyn ar CAS-3 yn y pum rhanbarth. O'r lleoedd hyn, roedd 94% ar gyfer preswylwyr gwrywaidd, a 6% ar gyfer preswylwyr benywaidd.
- Ymgysylltu ag awdurdodau lleol yng Nghymru, a Llywodraeth Cymru, i gyflwyno'r gwasanaeth yng Nghymru drwy gyllid grant.
- Diweddaru'r polisi ar Ryddhau ar Drwydded Dros Dro i alluogi mwy o garcharorion sy'n brif ofalwyr i adael carchar am gyfnodau byr i gynnal cysylltiadau â'u teuluoedd.
- Mae'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (DLUHC) wedi adlewyrchu anghenion troseddwyr benywaidd mewn fersiwn ddiwygiedig o Ganllaw'r Cod Digartrefedd ar gyfer awdurdodau lleol ym mis Gorffennaf 2021.
- Mae data rhywedd yn awr yn cael eu cofnodi gan DLUHC, i wella ein dealltwriaeth o'r materion sy'n gysylltiedig â thai i fenywod.

**Byddwn yn:**
- Sicrhau bod o leiaf 10% o'r gwelyau sy'n cael eu darparu drwy'r Gwasanaeth Llety Cymunedol (Haenau 1, 2 a 3) yn cael eu dyrannu i fenywod drwy eiddo i fenywod yn unig er mwyn iddynt deimlo'n ddiogel, yn enwedig rhai sydd wedi cael eu cam-drin.
- Bydd DLUHC yn buddsoddi dros £2bn i fynd i'r afael â digartrefedd a chysgu ar y stryd, drwy ddangos ymrwymiad i raglenni fel Accommodation for Ex-Offenders, cynllun dan arweiniad awdurdodau lleol sy'n helpu rhai sy'n gadael carchar i gael llety dan rent.
- Recriwtio hyd at naw o Arbenigwyr Tai Strategol cyfwerth ag amser llawn mewn carchardai menywod i wella canlyniadau tai i rai sy'n gadael carchar.
- Creu rhagor o leoedd mewn carchardai Agored i roi dosbarthiad daearyddol mwy ac i gynyddu nifer y menywod sy'n cael eu rhoi mewn categori amodau Agored pan fo hynny'n briodol, i'w helpu i ailsefydlu yn y gymuned.

## Pasbortau Ailsefydlu

**Nodau'r gwaith hwn:**
Byddwn yn datblygu Pasbort Ailsefydlu sy'n darparu'r wybodaeth a'r gwasanaethau allweddol a fydd eu hangen ar fenywod i addasu i fyw bywyd di-drosedd gan roi sylw i ffactorau y gwyddys sy'n arwain at aildroseddu. Bydd pob Pasbort yn ddogfen bersonol sy'n ymdrin ag iechyd meddwl, cyffuriau, addysg, sgiliau, gwaith, llety a chysylltiadau teuluol. Bydd yn trefnu, cynllunio ac yn cofnodi'r wybodaeth a'r gwasanaethau y bydd eu hangen ar garcharorion, rhai sy'n gadael carchar a'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio â hwy, gan ddechrau ar adeg derbyn i'r carchar a pharhau hyd at eu hailsefydlu yn y gymuned ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

**Yr hyn rydym wedi'i wneud hyd yma:**
- Yn y Papur Gwyn Strategaeth Carchardai (2021), rydym ailadrodd ymrwymiad y llywodraeth i ddatblygu Pasbort Ailsefydlu ac ymgynghorwyd ar yr egwyddorion arweiniol, y blaenoriaethau a'r meysydd y canolbwyntir arnynt i helpu i lunio'r Pasbort Ailsefydlu.
- Cafodd y cysyniad o Basbort Ailsefydlu ei groesawu gan randdeiliaid yn yr ymgynghoriad. Roedd ymatebwyr yn cydnabod pwysigrwydd mabwysiadu dull cydlynus ar gyfer symud i fywyd y tu allan i garchar, rhywbeth y mae'r Pasbort Ailsefydlu wedi'i gynllunio i'w gyflawni.
- Rydym yn mabwysiadu dull ailadroddol wrth ddatblygu'r Pasbort, gan weithio â charcharorion ar y dechrau i dreialu gweithredu prototeip o lawlyfr yn y lle cyntaf.

**Byddwn yn:**
- Parhau i ddatblygu dyluniad Pasbortau Ailsefydlu, gan gynnwys rhoi prawf arnynt gyda staff carchardai a phrawf, elusennau, a charcharorion i sicrhau ei fod yn addasu i'r heriau sy'n wynebu grwpiau penodol, gan gynnwys carcharorion benywaidd.

## Parhad mewn Gofal Iechyd

**Nodau'r gwaith hwn:**
Os nad oes help ar gael i sicrhau bod rhai sy'n gadael carchar yn gallu parhau â thriniaeth at gamddefnyddio sylweddau neu broblemau iechyd meddwl ar ôl eu rhyddhau, gall hyn wyrdroi unrhyw gynnydd a wnaed. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos troseddwyr benywaidd sy'n fwy tebygol o fod ag anghenion cymhleth ac sy'n fwy tebygol o fod wedi cael dedfryd fer, gan leihau'r amser sydd ar gael i gael help. Byddwn yn gwella parhad mewn gofal iechyd, gan sicrhau bod gan fenywod sy'n gadael carchar bwynt cyswllt penodol i'w helpu i ddefnyddio'r gwasanaethau GIG sydd eu hangen arnynt.

**Yr hyn rydym wedi'i wneud hyd yma:**

- Dechrau cyflwyno NHS RECONNECT gan NHS England, gwasanaeth gofal wedi carchar, sy'n helpu rhai sy'n gadael carchar yn Lloegr i barhau i gael y driniaeth gywir pan fyddant yn gadael carchar.
- Cwblhau cyflwyno Monitro Alcohol ar Drwydded yng Nghymru a Lloegr. Gellir gosod hwn fel amod ar rai sy'n cael eu rhyddhau o garchar ar drwydded, lle bu camddefnyddio alcohol yn ffactor yn eu troseddu.
- Darparu gliniaduron a thrwyddedau i bob carchar yn Lloegr fel y gall carcharorion fynychu apwyntiadau triniaeth cyffuriau cyntaf yn rhithiol gyda darparwyr triniaeth cyn eu rhyddhau i gynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar driniaeth gymunedol ar ôl eu rhyddhau.

**Byddwn yn:**

- Gweithio â NHS RECONNECT i barhau i gyflwyno'r rhaglen i sicrhau bod gan fenywod sy'n gadael carchar bwynt cyswllt penodol i'w helpu i ddefnyddio gwasanaethau'r GIG.
- Recriwtio Cydlynwyr Partneriaeth Iechyd a Chyfiawnder ym mhob Rhanbarth Prawf i wella llwybrau i ofal gwasanaethau gofal iechyd ar draws y system Brawf, gan gynnwys gwella parhad mewn gofal yn eu hardal fel y bydd y sawl sy'n gadael carchar yn gallu cael triniaeth a chymorth.
- Darparu gliniaduron a thrwyddedau ychwanegol i garchardai i gynyddu niferoedd y carcharorion sy'n gallu mynychu apwyntiadau cyntaf â darparwyr triniaeth cyffuriau cymunedol yn rhithiol cyn eu rhyddhau a chynyddu mynediad at wasanaethau tele-adfer.

| | Yr hyn y byddwn yn ei fesur | Y sefyllfa bresennol |
|---|---|---|
| **1.** | Cyfradd Aildroseddu a brofwyd ar gyfer menywod | Roedd y gyfradd aildroseddu a brofwyd ar gyfer menywod rhwng Ionawr a Chwefror 2020 yn **19%**.[21] |
| **2.** | % o fenywod mewn cyflogaeth chwe mis ar ôl eu rhyddhau | Yn 2021/22 roedd **4%** o fenywod a adawodd carchar mewn cyflogaeth chwe mis ar ôl eu rhyddhau o'r ddalfa.[22] |
| **3.** | % o fenywod a adawodd garchar a oedd mewn llety dri mis ar ôl eu rhyddhau o garchar | Yn 2021/22 roedd gan **63%** o fenywod a adawodd garchar lety dri mis ar ôl eu rhyddhau o garchar.[23] |
| **4.** | Nifer y menywod a ryddhawyd ar Drwydded Rhyddhau Dros Dro (ROTL) | Yn 2021, rhyddhawyd **345** o garcharorion benywaidd ar drwydded dros dro.[24] |

21 Proven reoffending statistics: October to December 2020 – GOV.UK (www.gov.uk)

22 Community Performance Annual, update to March 2022 – GOV.UK (www.gov.uk)

23 Ibid

24 Offender Management Statistics quarterly: October to December 2021 – GOV.UK (www.gov.uk)

| | Yr hyn y byddwn yn ei fesur | Y sefyllfa bresennol |
|---|---|---|
| **5.** | Nifer y menywod a alwyd yn ôl i garchar. | Yn 2021, dychwelwyd **1,454** o fenywod i garchar ar ôl adalw eu trwydded. |
| **6.** | Nifer y menywod a ryddhawyd ar Gyrffiw Cyfyngu i'r Cartref | Yn 2021, cafodd **891** o fenywod eu rhyddhau ar Gyrffiw Cyfyngu i'r Cartref.[25] |

[25] Ibid

# Sut y byddwn yn mesur cynnydd

Byddwn yn defnyddio'r data a'r dystiolaeth sydd ar gael i ddeall a yw'r cynllun cyflawni'n cael effaith ar ganlyniadau i fenywod. Mae hyn yn cynnwys:

a. Tystiolaeth o werthusiadau'r llywodraeth o brosiectau perthnasol;
b. Data o ystadegau cyhoeddedig cenedlaethol;
c. Tystiolaeth a gwybodaeth o ardaloedd lleol a phartneriaid sy'n cyflawni prosiectau ac ymyriadau.

Byddwn yn defnyddio mesurau perthnasol i fonitro newidiadau mewn ystod o ganlyniadau ym mhob maes blaenoriaeth. Gallai canlyniadau gynnwys ymddygiad troseddol (fel cyfraddau arestio, erlyn, ac aildroseddu), llesiant (fel iechyd meddyliol a chorfforol a pherthnasoedd), ac ailsefydlu (fel mynediad i gyflogaeth a llety ar ôl rhyddhau o garchar). Mi wyddom fod llawer o ffactorau a fydd yn dylanwadu ar ganlyniadau, er enghraifft mi all cynnydd yn niferoedd yr heddlu effeithio ar y niferoedd sy'n cael eu harestio. Os nad oes modd dweud beth sy'n achosi canlyniad, byddwn yn edrych ar yr holl ddata a thystiolaeth sydd gennym i geisio deall sut y gall canlyniad mewn un maes effeithio ar ganlyniadau mewn meysydd eraill. Er enghraifft, os oes mwy o fenywod yn cael eu harestio, a yw hyn yn arwain at erlyn mwy o fenywod?

## Y data a'r dystiolaeth y byddwn yn eu defnyddio

Os oes grŵp digon mawr o fenywod yn cymryd rhan mewn prosiect neu raglen sy'n cael eu gwerthuso gennym, byddwn yn defnyddio canfyddiadau o'r **gwerthusiadau** hynny i ddeall a ydynt yn effeithio ar ganlyniadau i'r menywod sy'n cymryd rhan. Mewn rhai achosion, mi fyddwn yn gallu dweud a yw'r prosiect wedi cael effaith ar ganlyniad penodol, fel aildroseddu, ac i asesu a yw'r prosiect yn gost effeithiol. Mewn achosion eraill, bydd canfyddiadau'n canolbwyntio ar ansawdd y prosiect, sut mae'r cyfranogwyr yn teimlo am gymryd rhan a pha mor dda mae'r prosiect yn cael ei redeg.

Byddwn yn defnyddio **ystadegau cyhoeddedig cenedlaethol** i fonitro newidiadau mewn canlyniadau i bob menyw sy'n dod i mewn i'r system gyfiawnder troseddol. Byddwn yn canolbwyntio ar feysydd fel niferoedd y menywod sy'n cael eu harestio, eu herlyn a'r mathau o ddedfrydau a roddir iddynt, a ydynt yn aildroseddu ac a oes ganddynt lety a gwaith pan gânt eu rhyddhau o'r carchar. Mi wyddom fod sawl ffactor sy'n debygol o achosi newidiadau sy'n digwydd dros amser, yn enwedig wrth inni gefnu ar y pandemig Covid-19, ac ni fydd y data hyn yn dweud wrthym beth sy'n achosi'r newid ond bydd yn dangos ym mhle mae'r newidiadau'n digwydd. Byddwn yn defnyddio ystadegau cenedlaethol i fonitro newidiadau ym mhob maes blaenoriaeth, yn ogystal ag edrych ar

newidiadau sy’n gysylltiedig â phrosiectau penodol. Byddwn yn defnyddio data sy’n ymestyn yn ôl dros gyfnod o 5 mlynedd, gan ddechrau yn 2018.

Byddwn yn gweithio â sefydliadau cyflawni lleol i adolygu unrhyw ddata neu dystiolaeth a gesglir ganddynt ac yn casglu **data a thystiolaeth o ffynonellau eraill** fel ymchwil academaidd ac adolygiadau tystiolaeth. Byddwn yn casglu tystiolaeth o arferion gorau lle nad oes modd gwerthuso prosiectau unigol (e.e., lle rhoddwyd cyngor ac arweiniad i gyrff allanol i wella eu ffordd o weithio â menywod).

## Sut y byddwn yn rhoi sylw i fylchau mewn data

Mae gennym ar hyn o bryd ystod eang o ddata cenedlaethol, sy’n cael eu diweddaru’n chwarterol a’u rhannu’n ôl rhyw (h.y. gwryw a benyw). Mae’r Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd yn bwriadu cyhoeddi Strategaeth Werthuso a Phrototeipio sy’n adlewyrchu ein hymrwymiad cryf i gynnal a datblygu sylfaen dystiolaeth gref sy’n dweud wrthym beth sy’n gweithio, i bwy, sut a pham. Mae gennym ymrwymiad ‘agored yn ddiofyn’ sy’n gysylltiedig â chyhoeddi gwerthusiadau, gan gynnwys ymyriadau ar gyfer troseddwyr benywaidd.

Fodd bynnag, mi wyddom fod bylchau yn ein data a’n tystiolaeth ac rydym yn gweithio i roi sylw i hyn yn y ffyrdd canlynol:

- Rydym yn trefnu Gweithgor Dadansoddi Trawslywodraethol ar gyfer gwaith sy’n cynnwys troseddwyr benywaidd. Bydd aelodau’n gallu rhannu canfyddiadau o’u gwaith â’r grŵp.
- Rydym yn gweithio i wella data o’r cyhoeddiad ystadegol Women in the Criminal Justice System[26] (a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2022), gan gynnwys cyhoeddi dangosfwrdd sy’n cynnwys dadansoddiadau mwy manwl o ddata.
- Rydym yn cydweithio’n glos â’n grŵp llywodraethu a rhanddeiliaid allanol eraill i ganfod ffynonellau tystiolaeth newydd a fydd yn helpu i wella ein dealltwriaeth o ganlyniadau i droseddwyr benywaidd.
- Rydym wedi comisiynu adolygiad o dystiolaeth sy’n edrych sut y mae menywod o gefndiroedd lleiafrif ethnig a gwladolion tramor yn profi anghydraddoldeb yn y system gyfiawnder troseddol. Bydd hyn yn helpu i wybod â mwy o sicrwydd pa anghydraddoldebau sy’n bodoli a chanfod meysydd lle mae angen rhagor o waith.

## Sut y byddwn yn adrodd ar gynnydd

Rhoddir diweddariadau ar ddata a thystiolaeth drwy dudalen ar GOV.UK a fydd ar gael i’r cyhoedd. Rhoddir data a thystiolaeth newydd fel y byddant ar gael. Byddwn yn rhoi diweddariadau o leiaf bob chwe mis.

[26] Women and the Criminal Justice System 2021 – GOV.UK (www.gov.uk)

Bydd y platfform yn cynnwys:

- Ystadegau cenedlaethol
- Data o gyhoeddiadau ystadegol perthnasol
- Data arolygon a gyhoeddwyd
- Gwerthusiadau a gyhoeddwyd
- Cyhoeddiadau ymchwil eraill

# Cwmpas

Mae'r cynllun cyflawni hwn yn cynnwys yr holl oedolion benywaidd sydd, neu sydd mewn perygl o fod, mewn cysylltiad â'r system gyfiawnder troseddol ac mae ei gwmpas daearyddol yn cynnwys Cymru a Lloegr.

# Y Cyd-destun Cymreig

Mae gwasanaethau cyfiawnder yng Nghymru'n cael eu darparu gan ystod o asiantaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sy'n gweithio â'i gilydd. Er bod Llywodraeth y DU yn dal yn gyfrifol am gyfiawnder a phlismona, mae'r rhan fwyaf o'r polisïau sy'n ymwneud â llesiant a chydnerthedd menywod yng Nghymru wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru.

Mae cymhlethdod y maes yng Nghymru'n golygu bod Cyfiawnder yng Nghymru'n cael ei weinyddu fel partneriaeth rhwng sefydliadau sydd wedi a heb eu datganoli. I ategu hyn mae Llywodraethau'r DU a Chymru wedi datblygu Glasbrint ar gyfer Troseddu Benywaidd[27] (Mai 2019). Mae hwn yn cyflwyno'r fframwaith i wasanaethau sydd wedi a heb eu datganoli i gydweithio i ddarparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol i sicrhau canlyniadau positif i unigolion ac i'r gymuned.

Yng ngoleuni'r cydweithio hwn, sy'n cyd-fynd ag egwyddorion y cynllun cyflawni hwn, bydd cynnydd yng Nghymru'n cael ei gyflawni ac adroddir arno'n bennaf yn erbyn y Fframwaith yn hytrach nag yn erbyn y cynllun cyflawni hwn.

[27] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru (2019). Glasbrint ar gyfer Troseddwyr Benywaidd. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/cefnogi-troseddwyr-benywaidd

E02776126

978-1-5286-3649-0